



**CYNGOR TREF  
LLANFAIRFECHAN  
TOWN COUNCIL**



**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB**  
**Maer: Cyng Laura Fielding                      Dirprwy Faer: Cyng Alun Rhys Jones**

**AGENDA CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,  
MEDI'R 27<sup>ain</sup> 2023**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Medi'r 6<sup>ed</sup> 2023 a'r rhestr weithredu gyfredol (DLIL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth a thrafod hysbysfwrdd Neuadd Pen Dalar.
7. Derbyn gwybodaeth am Faes Parcio Ffordd yr Orsaf a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer CCTV ac arwyddion newydd
8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer y cais ynghylch Tai Bach Cyhoeddus
9. Derbyn gwybodaeth am ddeiseb Ffordd y Pentref ar gyfer croesfan sebra a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer arwyddion diogelwch
10. Derbyn gwybodaeth am yr ymgynghoriad ynghylch Cynllun Cydraddoldeb yr Ombwdsman Cyhoeddus a llunio ymateb.
11. Derbyn gwybodaeth am y goleuadau Nadolig a chymeradwyo penderfyniad am oleuadau Nadolig Llanfairfechan 2023
12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Medi 2023

**Ymuno â'r Cyfarfod Zoom**

<https://us02web.zoom.us/j/87022296336?pwd=OXFvTXFHYZFZZDYwRmV3VTV2U0ZSZz09>

Rhif Adnabod y Cyfarfod: 870 2229 6336  
Cyfrinair: 534075

**Taliadau i'w cyflwyno**

- |                                                                                                |
|------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1. Emyr Price Toriad Hawliau Tramwy Cyhoeddus Llawn Medi 2023 £850.00                          |
| 2. Cyllid a Thollau EM taliadau'r cyflogwr ar gyfer Gorffennaf, Awst a Medi 2023               |
| 3. Peachy – Deunyddiau ar gyfer y cae pétanque. Cafodd llafur ei ddarparu'n wirfoddol. £254.36 |
| 4. Menter Iaith – cyfieithiadau ar gyfer Gorffennaf - Medi £552.47                             |

**Taliadau ôl-ddyddiedig**

- |                                                                                |
|--------------------------------------------------------------------------------|
| 5. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Awst 2023 £4700           |
| 6. Nisa Lluniaeth ar gyfer Diwrnod Hwyl i'r Teulu wedi'i dalu gyda siec £54.70 |
| 7. Bounce a Lot Llogi Castell – Diwrnod Hwyl i'r Teulu - £90.00                |

13. Trafod materion cynllunio

Dim wedi'u derbyn

14. Derbyn gohebiaeth
15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd
16. Derbyn materion brys i'w trafod

# COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN

## DYDD MERCHER, MEDI'R 27<sup>AIN</sup> 2023

Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Laura Fielding; Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Cyng Penny Andow (ar Zoom); Cyng Sharne-Marie Bellis; Cyng Andrew Hinchliff (ar Zoom); Cyng Chris Jones; Cyng Gareth Jones (ar Zoom); Cyng Elgan Owen (ar Zoom); Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg (ar Zoom)

Clerc y Dref Jayne Neal

Cytunwyd recordio'r cyfarfod er dibenion llunio'r cofnodion.

1. Estynnodd y Maer Laura Fielding groeso i bawb i'r cyfarfod.
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng Leena Farhat; Cyng Rob Jewell; Cyng Nia Jones

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu) – Dim buddiannau rhagfarnus wedi'u datgan. Eitem 12:3 taliad am y cae pétanque – Bu i'r Cyng Christine Roberts a'r Cyng Sharne-Marie Bellis ddatgan buddiant personol gan eu bod yn aelodau o'r pwyllgor Gefeillio Trefi.
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw beth

Roedd y Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu Sara Owen a'r Rheolwr Rhawd Gymunedol Heddwes Michael Couling yn ymweld a bu i'r Cyngor Tref ddiolch i Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu Sara Owen am ei gwaith yn y dref a'i llongyfarch ar ei gyrfa newydd. Nodwyd y bu perthynas waith agos ac y gobaith ydy y bydd hyn yn parhau gyda Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu Josh Jackson, sydd wrthi'n cwblhau hyfforddiant erbyn Tachwedd a bydd yn cymryd yr awenau dros y swydd yn Llanfairfechan. Adroddwyd y bu rhai achosion o fandaliaeth yn ystod noson y 26<sup>ain</sup>. Bu i Heddwes Couling atgoffa'r aelodau ei bod hi'n bwysig adrodd am droseddau sydd ddim yn rhai brys i 101 a throseddau brys i 999 neu gysylltu drwy'r ffurflen ar-lein ar [wefan yr heddlu](#). Gan hynny, fe gaiff yr holl droseddau eu hadrodd amdany'n nhw a byddan nhw'n cyfrannu tuag at y ffigyrau a fydd yn ei dro yn arwain at blismona effeithiol yn yr ardal. Penderfynwyd derbyn a nodi

- 5 Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion a'r Rhestr Weithredu

| Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council Action List |                                                   |            | NFI = no further information                                                                |
|-----------------------------------------------------|---------------------------------------------------|------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|
| Date: 27th September2023                            |                                                   |            |                                                                                             |
|                                                     | Item:                                             | Date:      | Progress                                                                                    |
| 1                                                   | Potholes in Mill Road                             | 17/04/2023 | Under observation by CCBC                                                                   |
| 2                                                   | Nant y Pandy car park                             | update     | information received                                                                        |
| 3                                                   | Paddling Pool                                     | NFI        | email received will report                                                                  |
| 4                                                   | Promenade car park & flood protection             | NFI        | coastal funding has been received Cllr Penny chasing up details                             |
| 5                                                   | Bus stop damage Y Bont east                       | NFI        | email sent for update 14/09/2023                                                            |
| 7                                                   | shop flags                                        | update     | on agenda                                                                                   |
| 8                                                   | resident concern about flytipping in Station road | NFI        | on agenda                                                                                   |
| 9                                                   | Benches project                                   | NFI        | on hold currently                                                                           |
| 10                                                  | Station Road Garden                               | update     | progress made. Notification of license received and Keep Wales Tidy garden pack received    |
| 11                                                  | MUGA West Shore                                   | update     | UK Prosperity fund bid sent off fo 22nd September                                           |
| 13                                                  | Audit                                             | update     | external audit has been sent out and no further requests for information have been received |
| 14                                                  | Kickstarter Community Plan                        | NFI        | email sent for update 5/07/2023                                                             |
| 17                                                  | Police information                                | update     | PCSO Josh Jackson is in training and will be on the beat by November 101/999 in interim     |
| 18                                                  | River leak under railway bridge                   | update     | work due to start 16th September                                                            |
| 19                                                  | Pagoda shelter                                    | update     | painting needs completing but feedback as been really good                                  |
| 20                                                  | Beach huts                                        | NFI        | Llais y Lle and Carneddau project are interested. Cartrefi community chest may fund         |
| 21                                                  | Calan Gaeaf celebrations                          | on agenda  | everything booked and workshops starting soon with Llais y Lle                              |
| 22                                                  | Remembrance Sunday                                | update     | email quote received                                                                        |
| 22                                                  | Festive Fayre                                     | update     | plan in progress                                                                            |
| 23                                                  | Christmas lights                                  | update     | on agenda                                                                                   |
| 24                                                  | reports of drug use                               | update     | Youth Services and NWP are involved in outreach education work                              |
| 25                                                  | footbridge damage                                 | update     | temporary fix has been made                                                                 |
| 26                                                  | Caradog Place footbridge barriers                 | update     | email sent - temporary barriers back up                                                     |
| 27                                                  | Station Road dog mess                             | update     | extra bags and post on Facebook/ chalk paint ordered                                        |
|                                                     |                                                   |            |                                                                                             |

**2 Nant Y Pandy** – derbyniwyd e-bost gan Jason K Jones. Derbyniwyd ymddiheuriad fod y mater wedi bod yn nwylo'r adran gyfreithiol ers cyn hired. Bydd rhagor o wybodaeth maes o law.

**3 Pyllau Padlo** – bydd y pyllau padlo yn ail-agor y tymor nesaf gan fod y gwaith wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Un nodwedd gadarnhaol ydy fod gan y pyllau padlo deils gwrthlithr newydd o amgylch y pwll a bydd y gorchudd gwrthlithr yn y pwll yn sicrhau ei fod yn llawer mwy diogel ar y safle. Ni chodir tâl ar y Cyngor Tref am y gwaith cynnal a chadw eleni. Mae'r holl broses wedi bod yn un anodd dros ben i bawb oedd ynghlwm ac fe ddywedodd CBS Conwy eu bod nhw'n gwerthfawrogi y gallai fod wedi cael ei drin yn well ac fe wnaethon nhw ymddiheuro.

**5 Difrod i'r lloches bws** – fandaliaeth yn barhaus. Mae llochesi tua'r Dwyrain a'r Gorllewin wedi'u difrodi, eu hadrodd amdany'n nhw ac wedi'u hatgyweirio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Difrod newydd – mae'r darn rhwyll cyfan wedi'i rwygo oddi ar y lloches ac fe anfonwyd e-bost i roi gwybod am hyn. Bydd y Clerc yn parhau i hysbysu'r cyngor. Fandaliaeth ar Fedi'r 26<sup>ain</sup>:

1. Difrod i flwch poster Venue Cymru
2. Difrod i'r lloches bws tua'r dwyrain yn Y Bont
3. Difrod i'r orsaf codi sbwriel ac un teclyn codi sbwriel wedi'i ganfod wedi'i dorri'n hanner ar Ffordd yr Orsaf.

Yr Heddlu wedi nodi hyn ond dydyn nhw heb dderbyn unrhyw dystiolaeth hyd yma.

**10 Gardd Ffordd yr Orsaf** – derbynir pecyn gardd ar gyfer y safle hwn, ac mae disgwyl y bydd gwaith yn cychwyn yn y flwyddyn newydd gan blannu ychydig o fylbiau yn ystod yr Hydref. Bydd angen tacluso'r ardd cyn gynted â phosibl a bydd y Clerc yn cysylltu gydag Asiantaeth Cefnffyrdd Cymru i gwblhau'r gwaith hwn. Bydd y Rotari yn gosod y tŷ gwydr yn y rhandir cymunedol a bydd gwaith ar y cyd i blannu hadau. Bydd sesiwn i gynllunio'r safle am 1yp ar ddydd Llun, Hydref yr 2<sup>il</sup> - mae croeso i bawb.

**11. Fe estynnodd y Maer ddiolch i glerc y dref am yr holl waith i gwblhau'r cais am gronfa allweddol ar gyfer y Maes Chwarae Aml-ddefnydd.** Bu i'r Clerc ddiolch hefyd i Dewi Williams, y Trysorydd o'r Clwb Pêl-droed am gydweithio ar hyn ac am y cynllun i weithio ar gais partneriaeth i Gymdeithas Pêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru.

**18 Afon yn gorlifo o dan y bont rheilffordd** Mae'n debyg bod gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â'r broblem

**19 Peintio'r lloches Pagoda** Does dim llawer mwy i'w wneud i gwblhau'r prosiect – y Clerc a'r Gweithredwr Amgylcheddol i gwblhau'r gwaith pan fo'r tywydd yn ffafriol.

**22/23 Mae dyfynbrisiau ar gyfer cau'r ffordd** wedi'u derbyn:

Sul y Cofio Tachwedd y 12<sup>fed</sup> 2023 Cyfanswm ---- £730 + TAW

Ffair Nadolig Dydd Sul, Rhagfyr y 10<sup>fed</sup> 2023 Cyfanswm --- £1135.00 + TAW

Clerc i fynd rhagddi i drefnu cau'r ffordd

Soniodd y Clerc am gyfarfod yng Nghlwb Brecwast Cyn-filwyr Llanfairfechan. Mae aelodau'r clwb yn awyddus i lanhau'r senotaff a chael mwy o ran yn y digwyddiad Sul y Cofio. Maen nhw wrthi'n trefnu dyddiad ar gyfer gweithgor ger y senotaff ac mae'r grŵp yn bwriadu ceisio i s137 am grant i brynu baner. Caiff gwaith ar yr ymylfeini ei gynllunio dros yr wythnosau nesaf.

**24 Adroddiadau am ddefnydd o gyffuriau** – Mae Gwasanaeth Ieuencid Conwy a Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno i gydweithio er mwyn addysgu pobl ifanc ynghylch y peryglon sydd ynghlwm â defnyddio cyffuriau a rhoi rhybuddion am yr ymddygiad. Ailadroddodd yr Heddwast Couling bod ymyriad yn ddibynnol ar y gymuned yr adroddwyd arni'n ffurfiol. Soniwyd eu bod nhw wedi bod yn cadw llygaid ar yr ardal eisoes ynghyd â rhoi camau gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael gydag un grŵp o bobl ifanc. Dydy Heddlu Gogledd Cymru ddim yn bwriadu troseddoli ac mae ganddyn nhw opsiynau atgyfeirio ar gyfer plant a phobl ifanc gallai fod ynghlwm. Bu pryderon ynghylch adroddiadau anecdotaidd o werthu cyffuriau mewn tafarndai, yn enwedig pryderon bod pobl hŷn yn gwerthu i bobl ieuengach. Mae'r Heddlu ac Adran Drwyddedu CBSC ynghlwm ag unrhyw adroddiadau ffurfiol caiff eu cyflwyno.

**26 Adroddiad Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau 25/09/2023 Pont droed Caradog Place** – cafodd y rhwystrau plastig eu tynnu a'u taflu i mewn i'r afon ac fe gyflwynwyd adroddiad i Gonwy ond mae rhai newydd wedi'u gosod yno erbyn hyn. Mae'n annhebygol y bydd rhwystrau parhaol yn cael eu gosod gan fod y rhai dros dro wedi'u gosod ers blynnyddoedd maith. Fodd bynnag, fe anfonwyd e-bost i holi am osod rhwystrau parhaol gan nad ydy'r ardal yn gwbl ddiogel.

**27 Baw ci ar Ffordd yr Orsaf** – mae blychau bagiau newydd wedi'u gosod ac mae hysbysiad wedi'i gyflwyno ar Facebook i geisio mynd i'r afael â'r broblem ar Ffordd yr Orsaf. Yn anffodus, mae'r blychau wedi'u torri a'u cymryd eisoes. Mae paent sialc wedi'i archebu a'r bwriad ydy chwistrellu'r palmant ar Ffordd yr Orsaf i ofyn i bobl am gymryd cyfrifoldeb dros eu cŵn.

**Cynigwyd gan y Cyng. C Roberts** Eiliwyd gan y Cyng. P Vangberg Yn Unfrydol

**Penderfynwyd**

**cymeradwyo a nodi**

6. Derbyn gwybodaeth a thrafod Hysbysfwrdd Neuadd Pen Dalar.

Mae wedi'i ddifrodi'n gyfan gwbl unwaith eto ac mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol dros ddwyn i ystyriaeth dyfodol yr hysbysfwrdd. Mae pwyllgor Pen Dalar yn dal ar waith a bydd trafodaethau er mwyn dwyn i ystyriaeth sut gellir ei ddefnyddio mewn ffordd fwy effeithiol. Bydd gofyn i'r Cyngor Tref ddwyn i ystyriaeth a ddylid atgyweirio'r bwrdd ai pheidio – clerc i gaffael dyfynbris ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

7. Derbyn gwybodaeth am Faes Parcio Ffordd yr Orsaf a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer CCTV ac arwyddion newydd

Mae'r preswylwyr yn dal yn bryderus ynghylch tipio anghyfreithlon ar y safle – mae proses gadarn gan CBSC i gael gwared ar unrhyw dipio anghyfreithlon ond mae problem barhaus, yn enwedig yn fuan yn y bore, gyda masnachwyr yn cael gwared ar eu gwastraff. Cytunodd y Cyngor Tref yn flaenorol i ariannu CCTV yn rhannol a gosod posteri newydd sydd yn erbyn tipio anghyfreithlon. Y Clerc a'r Gweithredwr Amgylcheddol i osod yr arwyddion newydd. Soniodd y Cyngorydd Sir bod system CCTV symudol newydd y gallai Cyngorau Tref ei ddefnyddio a bydd yn holi mwy am y broses er mwyn inni allu achub ar y cyfle.

Penderfynwyd

derbyn a nodi

8. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cais am Dai Bach Cyhoeddus

Mae strategaeth Tai Bach Cyhoeddus CBSC wedi'i ddosbarthu ar gyfer ymgynghoriad ac fe estynnwyd gwahoddiad i bawb gynnig eu sylwadau. Nodwyd nad oes llawer o fanylion ynghlwm â'r strategaeth ond mae'n crybwyll y cynllun tai bach cymunedol. Bu trafodaethau ynghylch pa gynlluniau dylid eu rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol. Wrth fwrw golwg ar y 35 ymateb i arolwg gwasanaethau cynaliadwy'r Cyngor Tref hyd yma, mae'n ymddangos nad ydy pobl yn gwerthfawrogi tai bach Ffordd y Pentref cymaint. Mae cyfle i ddwyn i ystyriaeth cynllun tai bach cymunedol ar gyfer y neuadd gymunedol a chau tai bach Ffordd y Pentref. Pwysleisiwyd na chaiff y tai bach eu cau nes bod system tai bach yn y neuadd gymunedol wedi'i osod ac ar waith. Rhoddodd y Cyngorydd Sir rybudd gan ei fod wedi'i awgrymu eisoes bod angen cyllid sylweddol – dros £200,000 ar gyfer rhwystro Ffordd yr Orsaf. Fe awgrymwyd y gellir defnyddio Cronfeydd Allweddol – fodd bynnag mae ansicrwydd ynghylch hyn gan fod y cyfnod ariannu'n fyr felly byddai'n anodd cyflawni'r gwaith. Clerc i barhau i drafod y mater gyda thirfesuryddion a chaffael gwybodaeth bellach yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi

9. Derbyn gwybodaeth am ddeiseb Ffordd yr Orsaf ar gyfer croesfan sebra a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer arwyddion diogelwch

Cynhaliwyd cyfarfod cadarnhaol gydag Adran Priffyrdd CBSC ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, mae trafferthion ynghlwm â gosod croesfan sebra oherwydd y gost a gan fod y palmant mor gul ger y coop. O ganlyniad, fe awgrymwyd gosod arwyddion ymwybyddiaeth a threfnu ymgyrch Facebook i hysbysu pobl am y problemau diogelwch yn yr ardal. Dywedodd CBSC y caiff yr arwyddion eu gosod yn y 6-8 wythnos nesaf a bydd y Cyngor Tref yn cydweithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth yn yr ardal. Pawb yn gytûn fod hyn yn ymgyrch i dawelu meddwl cerddwyr am ddiogelwch cymaint â sicrhau bod gyrwyr yn gyrru'n ofalus. Nodwyd bod gan gerddwyr hawl tramwy yn y cod priffyrdd newydd ac mae'n rhaid i yrwyr stopio os oes rhywun ar y ffordd ac yn croesi. Fodd bynnag, mae angen sicrhau newid yn y diwylliant er mwyn i hyn fod yn arfer rheolaidd. Os oes yna dal angen am osod croesfan sebra, gellir dwyn hyn i ystyriaeth yn y dyfodol, ond bydd angen i'r Cyngor Tref geisio am gyllid allanol ynghyd â dangos angen cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Clerc i barhau i fwrw iddi gyda'r broses ac adrodd yn ôl. Mae preswilydd sydd wedi bod yn arwain yr ymgyrch ac a wnaeth sefydlu'r ddeiseb wedi anfon eu diolch at y Cyngor Tref am frocra penderfyniad cam cyntaf a byddan nhw'n parhau i gydweithio er mwyn monitro'r sefyllfa.

Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn gwybodaeth am ymgynghoriad ynghylch Cynllun Cydraddoldeb yr Ombwdsman Cyhoeddus a llunio ymateb.

Roedd hwn wedi'i ddosbarthu'n flaenorol, ac fe ofynnwyd i'r Clerc ymateb i'r ymgynghoriad gan gefnogi'r nodau sydd wedi'u cynnig.

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn gwybodaeth am y goleuadau Nadolig a chymeradwyo'r penderfyniad ar gyfer goleuadau Nadolig Llanfairfechan 2023

Bu i arolwg barn ar Facebook gyda 392 o bleidleisiau amlygu canlyniad cryf oedd o blaid dau opsiwn:

1. Goleuadau / coed solar ar bolion lamp o amgylch y pentref £3500 (41%)
2. Goleuadau fel y llynedd gyda'r rhan helaeth o'r goleuadau ar Ffordd y Pentref gan fod y Ffair Nadolig yn yr ardal honno. £6800 (36%)

Bu i Gynghorwyr Tref leisio'u pryderon am effeithlonrwydd y coed solar ac roedden nhw'n teimlo nad oedden nhw'n werth da am arian felly fe gynigwyd opsiwn 3 ar yr amod y defnyddir gwasanaeth gosod newydd – Sets-limited. Mae'r cwmni hwn yn cydweithio gyda Chynghorau Tref Llandudno, Bae Colwyn a Bae Cinmel eisoes. Derbyniwyd dyfynbris gan y cwmni hwn a oedd yn gyfanswm o £6365. Byddai hyn yn cynnwys goleuadau ar y coed ger y groesffordd a fyddai'n creu mynediad i mewn i ardal y ffair Nadolig. Nodwyd yn dilyn yr archwiliadau safle, fod y gwaith a gwblhawyd gan CBSC yn ymddangos yn ddrud ac fe ymholwyd am ansawdd y gwaith cynnal a chadw. Mae hyn yn siomedig oherwydd roedd yn ymddangos fel opsiwn diogel ar gyfer y llynedd. Nodwyd na fyddai Banc Bwyd Llanfairfechan a Darganfod Llanfairfechan yn ceisio am grantiau'r Cyngor Tref yn 2023/24 felly gellir gwrthbwysu'r cyllid hwn tuag at oleuadau 2023. Cytunwyd y dylid ffurfio gweithgor er mwyn bwrw iddi gyda datrysiad mwy parhaol ar gyfer dyfodol y goleuadau Nadolig. Clerc i weithredu'r archeb gyda Sets-limited a hysbysu holl siopau Ffordd yr Orsaf a Ffordd y Pentref unwaith eto am y gystadleuaeth ffenest siop er mwyn

annog y defnydd o oleuadau ac addurniadau ar hyd y strydoedd. Estynnwyd diolch i'r cynghorydd sir am awgrymu'r cwmni newydd oherwydd bu'n help mawr.

Cynigwyd gan y Cyng C Jones                      Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff                      Yn Unfrydol                      Penderfynwyd  
cymeradwyo a nodi

**Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Medi\_2023**

| <b>Taliadau i'w cyflwyno</b>                                                                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 8. Emyr Price Toriad Hawliau Tramwy Cyhoeddus Llawn Medi 2023 £850.00                           |
| 9. Cyllid a Thollau EM taliadau'r cyflogwr ar gyfer Gorffennaf, Awst a Medi 2023                |
| 10. Peachy – Deunyddiau ar gyfer y cae pétanque. Cafodd llafur ei ddarparu'n wirfoddol. £254.36 |
| 11. Menter Iaith – cyfieithiadau ar gyfer Gorffennaf - Medi £552.47                             |
| <b>Taliadau ôl-ddyddiedig</b>                                                                   |
| 12. Cyflogau'r Staff a'r cyfraniadau Pensiwn ar gyfer Awst 2023 £4700                           |
| 13. Nisa Lluniaeth ar gyfer y Diwrnod Hwyl i'r Teulu wedi'i dalu gyda siec £54.70               |
| 14. Bounce a Lot Llogi Castell – Diwrnod Hwyl i'r Teulu - £90.00                                |

Cynigwyd gan y Cyng. C Jones                      Eiliwyd gan y Cyng. A Rhys Jones                      Yn Unfrydol                      Penderfynwyd  
cymeradwyo a nodi

**12. Trafod materion cynllunio**

Dim wedi'u cofnodi

Penderfynwyd derbyn a nodi

**13. Derbyn gohebiaeth – wedi ymdrin â'r mater yn gynharach yn y cyfarfod  
nodi**

Penderfynwyd derbyn a

**14. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd**

Cyfarfod Pwyllgor Pen Dalar Mae'r grŵp hwn yn bwriadu mynd rhagddi i ffurfio grŵp 'Cyfeillion Pen Dalar'. Mae'r pwyllgor wrthi'n cynllunio holiadur ar gyfer y preswylwyr i weld beth maen nhw eisiau i'r grŵp ei gyflawni. Byddai modd ychwanegu cwestiwn ynghylch yr hysbysfwrdd

Penderfynwyd derbyn a nodi

**15. Derbyn materion brys i'w trafod**

1. Diolch i'r Cyng. Andrew Hinchliff am y rhoddion ar gyfer y Banc Bwyd o'r digwyddiadau ffeirio llyfrau a diolch i fusnesau a chymuned ehangach Llanfairfechan am eu cefnogaeth barhaus.
2. Ymateb da gan grwpiau yn Llanfairfechan tuag at geisiadau Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol – cadarnhaol dros ben i weld hyn.
3. Mynegwyd pryderon ynghylch gweinyddu'r rhandiroedd – costau amrywiol, problemau gyda'r rhestr aros ac ati. Mae cyfarfod safle wedi'i drefnu gyda conwy ar gyfer
4. Caiff stondin y Coop ei ohirio am wythnos tra caiff yr holiadur ar-lein ei lunio. Mae'r Clerc ar ei hôl hi felly bydd y Cyng. Preben Vangberg yn cymryd yr awenau'r penwythnos yma.

Penderfynwyd derbyn a nodi

Daeth y cyfarfod i ben am 8:40yh